**Cyngor Partneriaeth Cymru - 8 Tachwedd 2023**

Dros Zoom

## Sylwadau agoriadol y Cadeirydd

### Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

1. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. Roedd yr ymddiheuriadau'n cynnwys Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru. Gan nad oedd yn bresennol nid oedd yn gallu cymryd rhan yn y drafodaeth o dan eitem tri ar yr agenda ond roedd wedi ysgrifennu at y Gweinidog i fynegi ei farn ar y mater.

2. Nododd y Gweinidog fod cofnodion y cyfarfod blaenorol (10 Gorffennaf) wedi cael eu dosbarthu a gofynnodd a oedd unrhyw sylwadau neu ddiwygiadau, ond ni chafwyd rhai.

3. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol naill ai'n gyflawn neu mewn llaw.

4. Manteisiodd y Gweinidog ar y cyfle i groesawu Charles Janczewski, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i Gyngor Partneriaeth Cymru, a oedd yn cymryd lle Maria Battle fel cynrychiolydd newydd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd Lleol.

| |
|---|
| **Cam gweithredu 1:** Yr ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu llythyr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu at y Gweinidog ynghylch eitem 3 ar yr agenda i aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru. |

## Eitem 1 ar yr Agenda: Cynnydd at Sero Net a Chydnerthedd Hinsawdd

5. Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem ar gynnydd at sero net a chroesawodd y Gweinidog Newid Hinsawdd i'r cyfarfod i arwain y drafodaeth. Croesawodd y Gweinidog Rhiannon Hardiman hefyd a oedd yn bresennol ar ran Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6. Tynnodd y Gweinidog sylw at y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol eraill ar yr agenda hon, yn enwedig yng ngoleuni'r heriau presennol, a nododd fod Newid Hinsawdd yn fater sy'n berthnasol i bob agwedd ar ein gwaith.

7. Agorodd y Gweinidog Newid Hinsawdd y drafodaeth drwy dynnu sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:
    - Roedd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn ddiolchgar am y cyfle i siarad ag aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru.
    - Roedd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn croesawu'r ymrwymiad a oedd yn cael ei rannu i gyrraedd y targedau Sero Net a thynnodd sylw at yr heriau

ariannol a’r polisïau macro-economaidd sydd eu hangen i gyrraedd y targedau. Yng ngoleuni hyn, teimlwyd y dylid ystyried cyfleoedd i ysgogi buddsoddiad o ffynonellau eraill, fel banc buddsoddi’r DU.

8. Ail ran yr eitem ar yr agenda oedd diweddariad gan banel y Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol. Nododd y Gweinidog y gwaith sylweddol sy’n cael ei wneud a’i oruchwylio gan y Panel gyda chefnogaeth CLlLC.

9. Rhoddodd Tim Peppin yr wybodaeth ddiweddaraf am waith y Panel a throsolwg o’r papur cryno.

10. Roedd y papur, gan gynnwys ei argymhellion, wedi cael ei ddosbarthu i’r aelodau cyn y cyfarfod.

## Eitem 2 ar yr Agenda: Symleiddio System Budd-daliadau Cymru

11. Cyflwynodd y Gweinidog eitem dau ar yr agenda ar y dull arfaethedig o symleiddio System Budd-daliadau Cymru. Roedd papur ar y dull arfaethedig a drafft terfynol o Siarter Budd-daliadau Cymru wedi cael eu dosbarthu i’r aelodau cyn y cyfarfod.

12. Croesawodd y Gweinidog y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r aelodau am y dull gweithredu arfaethedig.

13. Cyflwynodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip yr wybodaeth ddiweddaraf gan gynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:
    - Roedd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip yn ddiolchgar i’r partneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, am eu cyfraniad at y gwaith o ddatblygu Siarter Budd-daliadau Cymru a chofnododd ei diolch arbennig i’r Cynghorydd Anthony Hunt am ei gefnogaeth drwy gydol y broses.
    - Roedd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip yn awyddus i bawb allu cael gafael ar y budd-daliadau roedd ganddynt hawl iddynt. Roedd hi’n teimlo y byddai datblygu System Budd-daliadau Cymru yn sicrhau y byddai hyn yn digwydd mewn ffordd fwy cydlynol ac y byddai’n gwneud gwahaniaeth go iawn i gannoedd o filoedd o bobl yng Nghymru.
    - Rhannodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip ei gweledigaeth ar gyfer System Budd-daliadau Cymru y dylai unigolion ond orfod dweud ei hanes unwaith er mwyn cael gafael ar yr hyn y byddai ganddo hawl iddo.
    - O’r herwydd, roedd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip yn teimlo nad oedd angen mandadu mabwysiadu’r Siarter gan ei bod yn gwerthfawrogi bod pob partner, gan gynnwys awdurdodau lleol, wedi ymrwymo ac eisoes yn gweithio i wireddu’r weledigaeth hon.
    - Cadarnhaodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip ei bod hi’n bwriadu sefydlu Grŵp Llywio Allanol i ddod â’r holl randdeiliaid allweddol at ei gilydd, gan gynnwys llywodraeth leol, cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, a phartneriaid a sefydliadau yn y trydydd sector, i sicrhau bod y camau gweithredu perthnasol yn cael eu rhoi ar waith.

- Roedd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth aelodau’r Cyngor Partneriaeth i oruchwylio’r cynnydd ar y gwaith hwn, gan fod hon yn her ar y cyd yr oedd angen perchnogaeth ar y cyd ar ei chyfer.

14. Cododd aelodau’r Cyngor Partneriaeth y pwyntiau allweddol canlynol:
    - Dywedodd y Cynghorydd Anthony Hunt (Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Llefarydd CLlLC ar Gyllid) y byddai’n hapus i gytuno ar Siarter Budd-daliadau Cymru mewn gwaith ac mewn ysbryd ac i helpu i rannu’r arferion gorau ar hyd a lled Cymru. Roedd hefyd yn teimlo ei bod hi’n bwysig bod partneriaid yn gwneud yr hyn maent yn gallu ei wneud i sicrhau bod pobl yn gallu cael y budd-daliadau mae ganddynt hawl iddynt. Soniodd y Cynghorydd Hunt hefyd am y gwaith partneriaeth amhrisiadwy gyda’r Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth ar hyd a lled Cymru.
    - Roedd Fran Targett, a oedd yn bresennol ar ran CGGC, yn croesawu’r Siarter drafft ac yn cytuno ar bwysigrwydd cydweithio rhwng awdurdodau lleol a’r sector gwirfoddol annibynnol.
    - Roedd Mike Theodoulou, Cadeirydd Un Llais Cymru a hefyd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Shelter Cymru, yn cefnogi’r dull gweithredu arfaethedig i symleiddio Systemau Budd-daliadau Cymru, ond tynnodd sylw at bwysigrwydd cyfathrebu i sicrhau bod pobl sy’n gallu elwa yn hollol ymwybodol o’r newidiadau, a'u bod yn deall sut mae cael gafael ar yr hyn y mae ganddynt hawl iddo.

15. Roedd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip yn cytuno bod angen lansio’r Siarter mewn ffordd a oedd yn cyfleu’n glir ei bod yn ymwneud â phob un ohonom yn cymryd perchnogaeth a gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod beth oedd ar gael a sut i gael gafael arno. Dywedodd hefyd fod angen sicrhau bod timau Refeniw a Budd-daliadau awdurdodau lleol yn cael digon o hyfforddiant a chefnogaeth oherwydd byddant yn gwbl ganolog yn y gwaith o ganfod a chyflawni’r canlyniadau a ddymunir. Byddai gan ysgolion a grwpiau cymunedol rolau pwysig hefyd o ran helpu i gyrraedd rhieni a chymunedau ehangach. Daeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip â’r drafodaeth i ben drwy ailadrodd pwysigrwydd chwalu’r rhwystrau a chael un pwynt cyswllt ar gyfer budd-daliadau.

16. Roedd aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru yn cytuno i hyrwyddo gweithredu Siarter Budd-daliadau Cymru ar draws eu sectorau perthnasol a’r cynigion i symleiddio System Budd-daliadau Cymru.

## Eitem 3 ar yr Agenda: Cyflawni blaenoriaethau a rennir drwy bartneriaethau strategol – rhai myfyrdodau gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd.

17. Cyn cyflwyno’r Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd, rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i adolygu partneriaethau rhanbarthol, a drafodwyd yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf.

18. Diolchodd y Gweinidog i’r aelodau a oedd wedi rhoi sylwadau ar adroddiad yr adolygiad o bartneriaethau Rhanbarthol dros gyfnod yr haf a chadarnhaodd y

byddai swyddogion yn cysylltu â'r aelodau hynny a oedd wedi cynnig bod yn rhan o'r gweithgor.

19. Cyflwynodd y Gweinidog y Cynghorydd Huw Thomas i gyflwyno ei brofiad o alinio gweithio mewn partneriaeth yng Nghaerdydd. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y byddai'n croesawu cynigion gan aelodau eraill i rannu eu profiadau a'r gwersi a ddysgwyd o weithio mewn partneriaeth, neu faterion perthnasol eraill, yng nghyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol.

20. Dywedodd y Cynghorydd Huw Thomas ei fod yn croesawu'r cyfle i siarad yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth heddiw i rannu profiad Caerdydd o gydweithio drwy bartneriaethau a fframweithiau a oedd eisoes yn bodoli.

21. Dechreuodd y Cynghorydd Thomas drwy nodi bod cydweithio mewn partneriaeth o fewn cyd-destun tirwedd gymhleth. Roedd nifer o ffactorau'n arwain at hynny, gan gynnwys materion daearyddol ac amrywiaeth o bartneriaid, (partneriaid ar lefel y DU ac ar lefel Cymru) ond hebddynt byddai'n anodd cyflawni'r rhan fwyaf o ymrwymiadau / blaenoriaethau. Er enghraifft, mae hanner ymrwymiadau maniffesto Cyngor Caerdydd ei hun yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth ac mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hanfodol i hynny. Roedd creu diwylliant o fod yn agored ac ymddiriedaeth yn hanfodol ond gallai hefyd fod yn her.

22. Rhoddodd Gareth Newall, Cyngor Caerdydd, gyflwyniad yn amlinellu sut roedd gweithio mewn partneriaeth wedi cael ei ddiwygio ar draws Caerdydd.

23. Diolchodd aelodau'r Cyngor Partneriaeth i'r Cynghorydd Thomas a Gareth am eu cyflwyniad, ac roedd eraill yn awyddus i gael copi ohono i ddysgu ohono.

| |
|---|
| **Cam gweithredu 2:** Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu cyflwyniad Cyngor/Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. |

## Eitem 4 ar yr Agenda: Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraeth: Lleihau'r Baich Gweinyddol ar Awdurdodau Lleol

24. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad byr i'r aelodau ar ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol a'i rhaglen waith.

25. Atgoffodd y Gweinidog yr aelodau bod y rhaglen waith wedi'i rhannu'n ddwy ffrwd waith gyda thri amcan:
    - talu llai o grantiau i gynghorau gyda mwy yn mynd i'r Grant Cynnal Refeniw
    - sicrhau bod y grantiau sy'n weddill yn cael eu gweinyddu'n fwy cymesur; ac
    - na fydd cynnydd yn y gofynion gweinyddol neu wybodaeth eraill o ganlyniad.

26. Cadarnhaodd y Gweinidog fod llawer o waith wedi cael ei wneud ar draws portffolios yn Llywodraeth Cymru i adolygu'r grantiau refeniw presennol, gyda'r nod o gynnig newidiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

27. Yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth ym mis Gorffennaf, roedd y Gweinidog wedi dweud wrth yr aelodau ei bod yn bwriadu cynnal cyfarfod arbennig o'r Is-grŵp Cyllid yn ystod yr hydref lle byddai cynigion yn cael eu trafod ac, petai cytundeb, yn cael eu cadarnhau. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrth yr aelodau nawr ei bod wedi penderfynu gohirio'r cyfarfod tan ddechrau 2024 i sicrhau nad oedd y gwaith i leihau'r fiwrocratiaeth yn y broses grantiau yn cael ei ddrysu â phenderfyniadau cyllido ar y grantiau ar gyfer setliad 2024-25.

28. Pwysleisiodd y Gweinidog ei bod wedi gwneud y penderfyniad hwn i sicrhau tryloywder llwyr ag aelodau'r Is-grŵp Cyllid am y sail ar gyfer penderfyniadau Llywodraeth Leol sy'n ymwneud â chwantwm y grant cynnal refeniw a'r grantiau wedi'u neilltuo ar gyfer 2024-25.

## Sylwadau clo

29. Cyn dod â'r cyfarfod i ben, tynnodd y Gweinidog sylw'r aelodau at y materion canlynol:

- cyflwynwyd y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig i'r Senedd ar 2 Hydref. Mae'r Bil hwn yn cyflwyno cynigion i wella ac i foderneiddio sut caiff etholiadau eu gweinyddu er mwyn helpu i leihau'r diffyg democrataidd, gan gynnwys sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol, symleiddio'r broses o gofrestru pleidleiswyr a gwella'r ffordd caiff adolygiadau etholiadol eu cynnal.

- Roedd swyddogion yn gweithio'n gyflym i gyflwyno Bil Cyllid Llywodraeth Leol fel rhan o raglen ddeddfwriaethol trydedd flwyddyn y Prif Weinidog.

- Roedd digwyddiad Mynd i'r Afael â Cham-drin mewn Gwleidyddiaeth i fod i gael ei gynnal ddydd Mercher 31 Ionawr. Bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Panel Dyfarnu Cymru, swyddogion monitro awdurdodau lleol a phwyllgorau safonau.

30. Diolchodd y Gweinidog i'r aelodau am fod yn bresennol ac am eu cyfraniadau i'r cyfarfod a chadarnhaodd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 13 Mawrth 2024.